



**COFNODION BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU
11 MAWRTH 2015
Tŷ HYWEL, BAE CAERDYDD**

YN BRESENNOL

Robin Jones (Cadeirydd)

Andy Richardson

Alison Lea-Wilson

Buster Grant

David Lloyd

Huw Thomas

Justin Scale

Llor Radford

Marcus Sherreard

Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Amaeth a Bwyd

Andrew Slade, Llywodraeth Cymru

Keith Smyton, Llywodraeth Cymru

Peredur John, Llywodraeth Cymru

Ruth Akers, Llywodraeth Cymru

Lisa Penny, Llywodraeth Cymru

YMDDIHEURIADAU

Dr Norma Barry,

David Morris, Llywodraeth Cymru.

Eitem 1: Croeso

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyntaf a oedd yn cynnwys Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Amaeth a Bwyd .

Eitem 2: Cyflwyniadau

- Gwahoddodd y Cadeirydd bob aelod o'r Bwrdd i gyflwyno'u hunain, gan roi braslun o'u cefndir a'r rheswm dros wneud cais i eistedd ar y Bwrdd.

Eitem 3: Ymgyrch recriwtio - y wybodaeth ddiweddaraf

- Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Weinidog Amaeth a Bwyd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl fyrddau, y grwpiau cynghori, y paneli a'r gweithgorau mor amrywiol â phosibl o fewn cyfraith gwahaniaethu, gan geisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau'n benodol, ond gan geisio hefyd sicrhau amrywiaeth o ran grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Cynhelir ymgyrch recriwtio arall i ehangu amrywiaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd ac i annog pobl o grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol i ymgeisio.

Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen – y cerrig milltir allweddol a'r amserlenni ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod ar waith



- Cyflwyniad ar Fwrdd y Rhaglen yn rhoi manylion y camau sydd ar y gweill i roi'r pum adran yn y Cynllun Gweithredu, *Tuag at Dwf Cynaliadwy*, ar waith.
- Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen yn fewnol i gasglu gwybodaeth sy'n dangos sut y mae'r cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith ac i fwrw ymlaen i sicrhau canlyniadau a buddion y rhaglen
- Caiff gwefan Bwyd a Diod ei lansio fis nesaf a bydd ar gael ar blatfform Busnes Cymru. Bydd yn canolbwyntio at y diwydiant a defnyddwyr.

Eitem 5: Ffyrdd o weithio / y rhaglen waith

- Awgrymodd yr aelodau flaenoriaethau ac fe'u trafodwyd.
- Dyma'r themâu cyffredin: bylchau yn y diwydiant o ran addysg a sgiliau; hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru; beth y mae twf yn ei olygu, a beth yw blaenoriaethau twf?
- Beth y mae twf yn ei olygu a beth yw blaenoriaethau twf? Mae angen datblygu'r cynllun ar sail data sylfaenol er mwyn medru pennu cerrig milltir mesuradwy a'u hasesu ymhén dwy flynedd.
- Ystyriodd yr aelodau sut y bydd y Bwrdd yn ymwneud â byrddau/grwpiau eraill. Wedi i'r bwrdd asesu blaenoriaethau, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adnoddau priodol i hybu'r blaenoriaethau hynny.
- Trafododd yr aelodau gylch gorchwyl y bwrdd. Mae angen bod yn fwy strategol, syml a phenodol. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn adolygu'r cylch gorchwyl ac yn ei ailddosbarthu i'r aelodau er mwyn ei drafod ymhellach.

Eitem 6: Unrhyw fater arall FDWIB(15) M01

- Roedd yr aelodau am ychwanegu *Materion yn ymwneud â'r Diwydiant* fel eitem sefydlog ar yr agenda.